

Atodiad A: Materion i'w hystyried mewn perthynas â thywydd eithafol o arw a thywydd eithafol o boeth

Ystyriwch y cwestiynau a ganlyn i gwblhau eich asesiad risg, gan ddefnyddio'r asesiad risg cyffredinol a'r canllawiau cysylltiedig.

Tywydd eithafol o arw

Materion i'w hystyried er mwyn agor ysgol neu leoliad

Ystyriaeth gyntaf	Ystyriaeth(au) pellach
A oes modd cyrraedd adeilad yr ysgol?	Beth yw'r rhagolygon ar gyfer y tywydd yn y tymor hir? A oes rhybuddion gan y Swyddfa Dywydd? www.metoffice.gov.uk
A oes unrhyw fannau o gwmpas yr ysgol neu'r leoliad sy'n arbennig o amhosibl neu beryglus teithio drwyddynt ar gyfnodau o dywydd eithafol o arw?	Dylid ystyried y daith i'r ysgol a hefyd o'r ysgol. Yn achos systemau traffig un ffordd, mae'n bosibl bod y ffordd i'r ysgol yn llai serth na'r ffordd o'r ysgol. Mae'n bosibl bod yna fannau ar y daith lle mae'n hysbys y bydd rhew ac eira yn achosi i ffyrdd neu reilffyrdd gael eu cau'n gynnar. Ystyriwch ddod o hyd i lwybrau eraill cyn cyfnodau o dywydd eithafol o arw er mwyn helpu teithwyr i benderfynu ar eu llwybr pan fo angen.
A oes modd i gerbydau deithio ar y ffyrdd i mewn i dir yr ysgol neu'r lleoliad?	A oes modd gwella'r ffyrdd i mewn i dir yr ysgol neu'r lleoliad cyn i'r athrawon, bysiau ysgol, rhieni/gofalwyr ac ati gyrraedd?

	<p>A yw'n bosibl parcio y tu allan i dir yr ysgol neu'r lleoliad hyd nes y cymerir camau i sicrhau bod modd gyrru i mewn i'r safle?</p> <p>Os yw'r prif lwybr i gerddwyr, ar dir yr ysgol neu'r lleoliad, yn mynd trwy fannau parcio cerbydau, yna dylid gwahardd cerbydau. Mae'n bosibl bydd angen arwyddion i ddweud hyn.</p>
<p>A oes modd cerdded ar hyd y llwybrau i gerddwyr ar dir yr ysgol neu'r lleoliad?</p>	<p>A oes modd clirio'r llwybrau hyn gan ddefnyddio halen neu raeon, er enghraifft?</p> <p>Os oes angen, a ellir cyfyngu ar symud i wahanol rannau o'r ysgol neu'r lleoliad heb darfu ar neb, gan sicrhau y bydd gwaith cynnal a chadw'n gallu canolbwyntio ar gadw llwybrau mynediad cyffredinol yn ddiogel?</p> <p>A ellir rhoi blaenoriaeth i sicrhau bod llethrau, grisiau neu rampiau'n ddiogel, neu a oes modd gwahardd defnyddio'r manau hyn?</p> <p>Dylid hefyd osgoi defnyddio grisiau metel y tu allan oni bai eu bod wedi cael eu trin yn briodol.</p> <p>Os ydynt ar agor, dylai manau parcio cerbydau fod â llwybr diogel i gerddwyr mae modd cerdded ar eu hyd i fynd i'r ysgol neu'r lleoliad.</p>
<p>A all y pennaeth gael digon o staff i weithredu'n ddiogel?</p>	<p>Y mater pwysicaf i'w ystyried yw a all ysgol neu lleoliad weithredu'n ddiogel, nid a oes modd dilyn cwricwlwm llawn ac arferol.</p> <p>Ar gyfer pob ysgol a lleoliad, beth fyddai trothwy nifer y staff mewn perthynas â nifer y plant a phobl ifanc a ddisgwylir? Bydd angen i leoliadau gofal plant gadw at y cyfraddau a nodir yn y 'Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant wedi'i Reoleiddio i blant hyd at 12 oed'.</p>

	I ysgolion cynradd a lleoliadau gofal plant, byddai'r dysgwyr yn debyg o fyw'n lleol, ac felly byddai disgwyl i fwy ohonynt fod yn bresennol. Mae'n bosibl bydd gan ysgolion mewn ardaloedd gwledig neu ysgolion uwchradd ddysgwyr sy'n teithio o ardal ehangach a byddant yn dibynnu'n fwy ar fysiau ysgol neu drafnidiaeth gyhoeddus leol. Felly mae'n bosibl bydd y nifer yn llai – a gwaith goruchwyllo'n haws.
A yw'r ysgol yn cael ei gwresogi'n briodol?	A oes digon o danwydd neu bŵer ar gyfer y diwrnod? A yw'r system wresogi wedi methu o'r blaen ym misoedd yr hydref neu'r gaeaf – ac a yw'r modd i unioni hyn ar gael yn rhwydd?
A yw'r systemau dwr yn gweithio'n iawn?	A oes diffygion yr ydych yn ymwybodol ohonyn nhw ar gyfnodau o dywydd ansefydlog? A oes cofnodion ysgrifenedig – i sicrhau fod gwiriadau priodol yn cael eu gwneud?

Materion i'w hystyried er mwyn cadw ysgol neu leoliad ar agor

Ystyriaeth gyntaf	Ystyriaeth(au) pellach
A ellir cynnal lefel y gwresogi gydol y diwrnod neu'r wythnos?	Os oes angen, a fyddai modd codi'r tymheredd isel dros nos heb wneud y system yn llai effeithiol?
A oes modd cadw'r symudiadau rhwng adeiladau'r ysgol i'r lefel lleiaf posib, os oes rhaid mynd y tu allan i symud o'r naill i'r llall?	Os yw nifer y dysgwyr yn fach mewn ysgolion, a ellir grwpio dosbarthiadau gyda'i gilydd? A ellir clirio ac yna gadw'r manau hyn yn glir er mwyn lleihau'r cyfyngiadau?

	<p>Mewn lleoliadau gofal plant, byddai rhaid i unrhyw newid i strwythur sesiynau gadw at ofynion y 'Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant wedi'i Reoleiddio i blant hyd at 12 oed' mewn perthynas â maint grwpiau a'r defnydd a wneir o ystafelloedd.</p>
<p>Byddai cyfyngu ar chwarae'r tu allan yn atal y rhew neu'r eira rhag cael ei gywasgu ac o ganlyniad yn mynd yn fwy peryglus.</p>	<p>Os nad yw'r amodau'n beryglus, efallai y bydd yn bosibl chwarae'r tu allan. Fodd bynnag, efallai bydd angen mwy o oruchwyliaeth.</p> <p>A ellid cynnal amserau chwarae neu egwyl gyda gwahanol grwpiau o blant allan ar amserau gwahanol er mwyn sicrhau bod digon o oruchwyliaeth ar gael?</p> <p>Os oes unrhyw rew neu eira, dylid gwahardd rhedeg.</p> <p>.</p>
<p>A ellir gwneud gwaith cynnal a chadw ar dir yr ysgol er mwyn ei gwneud yn ddiogel i agor drannoeth?</p>	<p>Dylai llwybrau i gerddwyr gael blaenoriaeth dros fannau parcio i gerbydau, ond yn y tymor hir dylid trin mannau parcio ar dir yr ysgol neu'r lleoliad, neu dylid clirio'r eira ohonyn nhw. Dylai pobl sydd wedi parcio ar dir yr ysgol neu'r lleoliad fod yn ymwybodol o'r flaenoriaeth hon, a dylid dweud wrthynt am gymryd gofal yn yr ardal hon. Gellid gosod arwyddion i atgoffa'r bobl hyn.</p> <p>Dylai gwaith cynnal a chadw fod yn flaenoriaeth lle mae llwybrau i gerddwyr yn mynd trwy fannau ar gyfer cerbydau. Fel arall, gellid gosod cyfyngiadau ar gerddwyr neu atal ceir rhag mynd i'r ardal honno.</p>
<p>Monitro'r tywydd yn lleol a thrwy'r cyfryngau (er enghraifft Y Swyddfa Dywydd).</p>	<p>Mae'n bosibl bydd awdurdodau lleol yn gallu darparu gwybodaeth ynglŷn â chlirio ffyrdd, gan roi sicrwydd ynglŷn â theithio adref, neu deithio'n ôl drannoeth.</p>

<p>Cyfathrebu'n barhaus gyda'r cwmnïau sy'n darparu cludiant pwrpasol i'r ysgol.</p>	<p>Mae'n bosibl y bydd angen i fysiau ysgol pwrpasol gyrraedd yn gynharach na'r arfer er mwyn mynd â'r dysgwyr adref yn ddiogel ac yn amserol.</p>
<p>A oes deunyddiau a phersonél cynnal a chadw ar gael i sicrhau bod yr ysgol neu'r lleoliad yn gallu cael gwared ar risg, neu ei leihau neu ei gyfyngu gydol y diwrnod ysgol?</p>	<p>A oes modd sicrhau darpariaeth debyg ar gyfer y diwrnod/dyddiau canlynol?</p> <p>Gallai taenu halen neu raean ar lwybrau neu fannau eraill ar ddiwedd y dydd helpu i atal rhagor o rew rhag ffurfio. Gallai hefyd atal unrhyw gawodydd eira eraill rhag glynu ac ail-rewi.</p> <p>Dylid clirio cymaint â phosibl o unrhyw slwtsh neu ddŵr o rew neu eira sydd wedi dadmer er mwyn ei atal rhag rhewi eto. Gallai slwtsh wedi rhewi fod yn fwy peryglus na'r gawod eira gyntaf oherwydd gall yr wyneb fod yn anwastad ac yn fwy llithrig</p>

Ystyriaethau ataliol

Ystyriaeth gyntaf	Ystyriaeth(au) pellach
<p>A oes polisi ysgrifenedig ar gyfer tywydd eithafol o arw a chau'r ysgol neu'r lleoliad?</p>	<p>A yw'r polisi wedi cael ei rannu gyda staff, rhieni a gofalwyr?</p>

<p>Dylai fod gan y pennaeth neu reolwr asesiad risg ar waith sy'n ystyried risgiau rhagweladwy tywydd eithafol o arw.</p>	<p>Defnyddiwch yr asesiad risg cyffredinol yn Atodiad B neu defnyddiwch Atodiad B fel canllaw i'r pennaeth neu reolwr greu ei asesiad risg cyffredinol ei hun.</p> <p>Pa fannau sy'n tueddu i gael eu heffeithio fwyaf?</p> <p>Beth yw'r profiad a gafwyd mewn blynyddoedd cynt?</p> <p>Faint o blant a phobl ifanc sy'n dibynnu ar gludiant a ddarperir gan yr ysgol neu'r lleoliad?</p>
<p>A oes system ar gyfer cyfathrebu gyda gofalwyr, staff cynnal a chadw, athrawon a staff goruchwylio eraill i ganfod sut y byddant yn teithio i'r ysgol neu'r lleoliad ac yn ôl adref ar gyfnod o dywydd eithafol o arw?</p>	<p>Dylai'r pennaeth neu reolwr wybod ble mae ei staff a dylai allu cysylltu â nhw i drafod a fyddan nhw'n dod i'r ysgol neu'r lleoliad.</p>
<p>A oes rhai ardaloedd o'r ysgol neu'r lleoliad lle mae dŵr, rhew ac eira'n fwy tebygol o gasglu nag mewn mannau eraill?</p>	<p>Os na ellir cymryd camau i atal dŵr, rhew neu eira rhag casglu, a ellir osgoi'r mannau hyn heb effeithio ar agor yr ysgol neu'r lleoliad?</p>
<p>A yw'r cyflenwadau o halen neu raean yn ddigonol ar gyfer yr adeg o'r flwyddyn a'r tywydd a ragwelir?</p>	<p>Pa mor hawdd yw archebu rhagor o halen neu raean? Oes yna gyfyngiadau ar ddyraniadau ac oes modd paratoi unrhyw waith papur ar gyfer archebu rhagor ymlaen llaw?</p> <p>A oes cyflenwyr halen neu raean eraill ar gael gerllaw?</p>
<p>Dylai fod modd i bobl sychu dŵr, rhew neu eira oddi ar eu hesgidiau ac ati ger mynedfeydd adeiladau.</p>	<p>A oes digon o fatiau a mopiau?</p> <p>A oes trefniadau clir a dealladwy ar gyfer cadw mynedfeydd mewn cyflwr da?</p>

--	--

Tywydd eithafol o boeth

Ystyriaethau cyffredinol

Ystyriaeth gyntaf	Ystyriaeth(au) pellach
A oes polisi ysgrifenedig ar gyfer tywydd eithafol o boeth?	A yw'r polisi wedi cael ei rannu gyda staff, rhieni a gofalwyr?
Dylai fod gan y pennaeth neu reolwr asesiad risg ar waith sy'n ystyried risgiau rhagweladwy tywydd eithafol o boeth.	Defnyddiwch yr asesiad risg cyffredinol yn Atodiad B neu defnyddiwch Atodiad B fel canllaw i'r pennaeth neu reolwr greu ei asesiad risg cyffredinol ei hun. Beth yw'r profiad a gafwyd mewn blynyddoedd cynt?
A oes mannau yn yr ysgol neu'r lleoliad a fyddai'n mynd yn boethach nag eraill?	Os na ellir gweithredu i sicrhau bod y mannau hyn yn cael eu hoeri, a ellir osgoi'r mannau hyn heb effeithio ar y plant a'r staff?